

Pwnc dan Sylw –

Gweithgareddau Creadigol (Gofal Dementia)

Lefelau 1-3

Amser - 2 sesiwn 3.5 awr yr un

Nodau ac amcanion Dau weithdy hanner diwrnod ar ddefnyddio gweithgareddau creadigol mewn gofal dementia. Bydd pob gweithdy'n rhoi gwybodaeth sylfaenol o ddefnyddio gweithgareddau creadigol gyda'r nod o alluogi staff i ddatblygu sgiliau sydd ganddynt eisoes drwy ddysgu trwy brofiad. Mae'r saib rhwng sesiynau'n galluogi staff i ddychwelyd i'w mannau gwaith i weithio ar aseiniadau ar gyfer cyflwyniadau yn sesiwn 2.

Gweithdy 1

Nod - rhoi cyflwyniad i weithgareddau creadigol, y rhesymwaith tu ôl iddynt a'r dystiolaeth dros eu defnyddio mewn gofal dementia .

Dylai'r gweithdy alluogi staff i weld gwerth gweithgareddau creadigol a'r manteision i rywun sy'n dioddef o ddementia. Mae'n galluogi'r rhai fydd yno i ddysgu sgiliau newydd, datblygu sgiliau sydd ganddynt eisoes, datblygu adnoddau a darganfod sut i ddefnyddio celfyddydau creadigol.

Gweithdy 2

Nod - cyflwyno gwaith project, cynllunio a datblygu gweithgareddau creadigol yn y gweithle.

Mae'r rhai fydd yno'n dangos sut maent wedi rhoi gwybodaeth ar waith, deall sut mae gan weithgareddau creadigol swyddogaeth werthfawr mewn asesu a chynllunio gofal, a deall goblygiadau hwyluso gweithgareddau creadigol.

Cwrs/Rhaglen Ddysgu

Gweithdy 1

- Trosolwg o weithgareddau creadigol mewn gofal dementia
- Cydnabod amcanion a gwerth
- Arfer da - egwyddorion
- Sgiliau hwyluso - 1:1 a gwaith grŵp - ymarferion ymarferol
- Adnabod themâu a diddordeb
- Project ymarferol - aseiniad - gweithgaredd creadigol yn y gweithle

Gweithdy 2

- Cyflwyno projectau
- Adnabod doniau cudd, diddordebau a chreadigrwydd
- Gwaith ymarferol - defnyddio'r celfyddydau creadigol
- Ymdrin ag anawsterau
- Gwaith ymarferol - mynd â'r peth ymhellach

Cyfryngau dysgu

Darlith, PowerPoint, enghreifftiau gweledol o weithgareddau creadigol, ymarfer ymarferol, DVD o weithgareddau creadigol ar waith, taflenni, deunyddiau adnodd, sesiynau ymarferol mewn sgiliau hwyluso, gwaith grŵp seiliedig ar brofiad, arddangosiadau.

Mae'r costau'n dibynnu p'un a gynhelir y cwrs gan DSDC neu y caiff ei gomisiynu gan sefydliad unigol.